**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

***Rheoliadau Gorfodi'r Gyfraith a Diogelwch (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019***

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os yw un o Offerynnau Statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Cafodd Rheoliadau Gorfodi'r Gyfraith a Diogelwch (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 eu gosod gerbron Senedd y DU ar 15 Ionawr ac maent bellach yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad. Mae'r OS i'w weld yma:

*http://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2019/9780111178102/contents*

**Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i nod**

3. Nod yr OS yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â phlismona, ymchwiliadau troseddol, gorfodi'r gyfraith a diogelwch.

4. Mae'r OS hwn yn gwneud cywiriad technegol i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. Mae angen y cywiriad hwn i sicrhau y bydd y llyfr statud yn parhau i weithredu ar ôl ymadael â'r UE.

**Y ddarpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS**

*5.* Roedd y ddarpariaeth dan sylw yn gwneud diwygiadau mân iawn i baragraff 12(1)(c) a (d) o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. Ar hyn o bryd mae'r Ddeddf yn darparu y gellir ond rhoi trwydded ar gyfer sefydliad rhyw (sef lleoliadau adloniant rhywiol, sinemâu rhyw a siopau rhyw) i bersonau sy'n preswylio mewn gwladwriaeth AEE, neu i gyrff corfforaethol a gorfforwyd mewn gwladwriaeth AEE. Bydd y fersiwn ddiwygiedig yn darparu y gellir ond rhoi trwydded i bersonau sy'n preswylio yn y DU neu mewn gwladwriaeth AEE, neu i gyrff corfforaethol a gorfforwyd yn y DU neu mewn gwladwriaeth AEE.

6. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraff 5 uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â thrwyddedu sefydliadau rhyw.

**Pam mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon**

7. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi i'w gywiro. Gan hynny, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**Julie James AC**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**3 Mai 2019**